

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Heulwen Edwards (Groes) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Maelor ddechrau'r wythnos, hefyd Elizabeth Jones (Groes) sydd yn yr Inffirmari yn dilyn codwm a chyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae Bob Davies (Llanfair) yn parhau yn Ysbyty Llandudno, a Morfudd Williams (Henllan) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd er ei bod yn disgwyl cael symud i'r Inffirmari yn fuan. Deallwn hefyd fod Taylor Jones (Llansannan) wedi treulio noson yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan iawn ac y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Parhawn i gofio yn ein gweddïau hefyd am eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd, rhai ohonynt yn cael triniaeth tymor hir ac eraill yn wynebu llawdriniaeth. Cyflwynwn hwythau i'r Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt, a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd.

I ddo

- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 31ain–Chwefror 2il.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 7fed–9fed. Bydd yr Ofalaeth yn rhoi gostyngiad o £10 i bob plentyn fydd yn mynd yno ac mae'n bosib y bydd yr Henaduriaeth yn medru cyfrannu ychydig hefyd i leihau'r gost. Cysylltwch â Rhodri i gael mwy o fanylion.
- **ARFOGI 14** – Penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc yng Ngholeg y Bala Chwefror 14eg–16eg i annog ac arfogi cenhedlaeth newydd. Mwy o fanylion trwy ffonio (01678) 520565 neu ewch i'r wefan www.souledoutcymru.net.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am “Ffynhonnau”.
- **LLANW** – Mae'r amser wedi dod i archebu eich lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Mae croeso i bawb, plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae croeso cynnes i'r di-Gymraeg ac i ddysgwyr; bydd offer cyfieithu ar gael. **** SYLWCH: Os am aros mewn carafan ym Mharc Kiln, rhaid archebu lle ERYN IONAWR 24AIN.**** Am fwy o wybodaeth ac i gael ffurflen archebu, ewch i'r wefan: www.llanw.org.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Ionawr 2014

Darllenid y Dydd

Colosiaid 2:6-10

(BCND tud.221 / BCN: tud.202)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i'n hoedfaon heddiw. Braf yw cael croesawu Aneurin yn ôl yn saff i'n plith wedi cyfnod yn darlithio ym Mizoram, India – dwi'n siŵr y byddwn yn cael clywed tipyn o hanes ei daith dros yr wythnosau nesaf!

Mae hi'n gyfnod pwysig o'r flwyddyn yn y byd ffilmiau, gan fod amser gwobrau'r *Oscars* yn dynesu. Cyhoeddwyd yr enwebiadau ddydd lau a rhoddwyd cryn sylw i ffilm o'r enw *12 Years a Slave*. Ffilm ydyw sy'n seiliedig ar hunangofiant dyn croenddu rhydd o'r enw Solomon Northup a gafodd ei gipio ym 1841 a'i orfodi i lafurio fel caethwas am ddeuddeg mlynedd yn America. Tydw i heb weld y ffilm eto, ond mae'n debyg ei bod yn gignoeth yn ei phortread o erchyllterau caethwasiaeth. Wrth feddwl am gaethwasiaeth rydym yn gwbl gywir i ffeiddio a chondemnio, ac yn ein darllenid heddiw mae Paul yn annog Cristnogion Colosae i ofalu nad ydynt i gael eu cipio i gaethiwed athroniaethau a thraddodiadau dynol sydd yn ddi - Grist. Yn syml, mae Paul am iddynt sicrhau bod eu holl fywydau yn cael ei adeiladu ar Iesu ac nid ar unrhyw wrthrych, syniadaeth na pherson arall. Mae'r defnydd o 'cipio i gaethiwed' nid yn unig yn dangos y perygl y mae Paul yn ei weld o flaen y Colosiaid, ond hefyd yn pwysleisio'r diffyg rhyddid a'r ymdrech aruthrol sydd ei angen i ddianc o unrhyw gaethiwed.

Tybed ydym ni'n cael ein temtio weithiau gan ffyrdd o feddwl a byw sy'n dibrisio'r Beibl neu'n lleihau pwysigrwydd Iesu Grist yn ein bywyd bob dydd? Ai dibynnu arnom ein hunain a wnawn neu ddibynnu'n llwyr ar Grist a'i farwolaeth drosom? Yn enwedig ar gychwyn blwyddyn, mae'n hawdd perswadio'n hunain fod angen tudalen lân a dechrau newydd, ond nid ynom ein hunain na thrwy ddoethineb dynol y daw gwir obaith i ni. Mae tystiolaeth y Beibl yn glir – Iesu'n unig sydd ag awdurdod dros yr holl greadigaeth, ac Ef yn unig sy'n gallu cynnig achubiaeth am byth i bobl fel ni sy'n methu achub ein hunain. Dyna'n union ddywedodd Pedr "Iesu yw 'Y maen a ddiystyrwyd gennych chwi yr adeiladwyr, ac a ddaeth yn faen y gongl.' Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo." (Actau 4:11-12)

Os felly, boed i ni aros yn gadarn â'n ffydd yn Iesu, a diolch i Dduw am ei ras sy'n cynnig i ni gyflawnder trwy ei Fab.

Darllenid Wythnos Nesaf

Deuteronomium 6:4-9 (BCND tud.168 / BCN: tud.153)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod – Grŵp Elen** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Bydd Cymdeithas Llansannan yn cyfarfod yn y Festri am 7.30 pryd y ceir 'Hawl i Holi' yng nghwmni Gwenno Davies, Prysor Williams, Celfyn Williams ac Iwan W. Jones, gydag Alwyn Williams yn cadeirio.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.